

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

22 Ebrill 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dod i rym

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolynnau o'r feirws hwnnw, gan deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddiwynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae asesiadau risg diweddaraf y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch (19 Ebrill) ar gyfer India yn dangos bod y risgiau wedi cynyddu ac y dylid ychwanegu'r wlad hon at y "rhestr goch" o wledydd. Ni fyddai teithwyr o'r gwledydd hynny yn cael dod i mewn i Gymru; yn hytrach byddai'n rhaid iddynt ddod drwy borthladd dynodedig yn Lloegr neu yn yr Alban ac aros mewn cwarantyn wedi'i reoli yno am 10 o ddiwrnodau cyn teithio i Gymru. Bydd teithiau hedfan uniongyrchol wedi'u gwahardd, ond ni ddisgwylir teithiau o'r fath.

Gwneir newidiadau eraill yn y ddeddfwriaeth hon er mwyn:

- Caniatáu i gludwyr gwaed, meinweoedd ac organau dynol sydd wedi bod mewn gwlad "rhestr goch" ddod i mewn i Gymru ac ynysu, cyflwyno eithriad penodol rhag ynysu at ddibenion gwaith a'u heithrio o'r gofynion profi ar ôl cyrraedd.

- Caniatáu i weithwyr iechyd neu ofal proffesiynol sydd wedi bod mewn gwlad "rhestr goch" ddod i mewn i Gymru ac ynysu yng Nghymru a gwneud cais iddynt am brofion gweithlu ar ddiwrnodau 2, 5 ac 8 yn hytrach na'r gofynion profi ar ôl cyrraedd.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.